Prif Weithredwr – Disgrifiad o'r Swydd

Diben y Swydd

Penodir y Prif Weithredwr yn unol ag A56 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a bydd yn arwain gweithlu'r cyngor drwy'r Tîm Arwain Corfforaethol. Prif gyfrifoldeb y Prif Weithredwr yw sicrhau y caiff y cyngor ei lywodraethu'n dda a sicrhau y gall y cyngor gyflawni ei amcanion a'i swyddogaethau statudol, mewn ffordd gyfreithlon a chyllidol briodol.

Prif Atebolrwyddau a Chyfrifoldebau:

Strategol

- Cefnogi'r Arweinydd, y Cabinet a'r Aelodau Etholedig drwy weithio gyda nhw i ddatblygu strategaethau a fydd yn gwireddu gweledigaeth ac uchelgeisiau'r cyngor, a rhoi'r strategaethau hynny ar waith, gan roi cyngor clir, diduedd a diamwys iddynt.
- Cyflawni nodau ac amcanion strategol y cyngor fel y'u nodir gan yr Arweinydd, y Cabinet a'r Aelodau Etholedig, gan sicrhau bod pobl Castell-nedd Port Talbot wrth wraidd y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, a'u datblygu yn y dyfodol, a bod anghenion amrywiol ein cymuned yn cael eu hystyried.
- Cynnig arweinyddiaeth a chyfarwyddyd clir a gweledigaethol i'r gweithlu a phartneriaid ehangach er mwyn sicrhau y caiff nodau strategol y cyngor eu rhoi ar waith.
- Gweithredu fel cennad, gan gynrychioli a hyrwyddo buddiannau Cyngor Castell-nedd Port Talbot, ei drigolion a'i fusnesau, a hynny ar lefel ryngwladol, genedlaethol, ranbarthol a lleol, gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chyrff statudol, cyhoeddus a phreifat eraill.

Arweinyddiaeth

- Cynnig arweinyddiaeth a chyfarwyddyd clir a gweladwy i Dîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol y cyngor, gan lywio gwelliannau i wasanaethau a chydgysylltu strategaethau er mwyn sicrhau canlyniadau a chyflawni blaenoriaethau'r cyngor.

- Meithrin cydberthnasau cadarn a chadarnhaol ag Aelodau Etholedig a sicrhau trefniadau llywodraethu corfforaethol effeithiol, uniondeb a hygrededd wrth wneud penderfyniadau a chydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol.
- Arwain drwy esiampl wrth eirioli a hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth o fewn gweithleoedd y cyngor ac wrth ddarparu gwasanaethau.
- Bod yn esiampl yn bersonol a gwreiddio diwylliant sy'n annog trawsnewid sefydliadol gan adlewyrchu gwerthoedd y cyngor ac Egwyddorion Nolan ar yr un pryd.
- Mynd ati i gymryd rhan ym mywyd dinesig a chymdeithasol y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys rhoi cymorth i faeryddiaeth y cyngor, sef Arglwydd Raglawiaeth a Siryfiaeth Gorllewin Morgannwg.

Rheoli Adnoddau

- Sicrhau gwasanaethau costeffeithiol o safon uwch drwy herio'n effeithiol a chynnig cymorth parhaus.
- Sicrhau y caiff trefniadau cadarn ar gyfer cynllunio ariannol, cynhyrchu incwm a rheoli adnoddau eu datblygu, eu rhoi ar waith a'u cynnal er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r cyngor.
- Rheoli'r broses o bennu'r gyllideb flynyddol a chyflawni'r strategaeth ariannol.
- Cyflawni rôl flaenllaw o ran helpu Castell-nedd Port Talbot i adfywio a ffynnu'n economaidd, yn enwedig drwy gefnogi'r rhaglen adfywio strategol sy'n ceisio sicrhau cyflogaeth newydd sylweddol yn yr economi leol gan alluogi pobl a busnesau lleol i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny ar yr un pryd. Mae hyn yn golygu gweithio ar lawer o wahanol lefelau gan gynnwys gweithgareddau adfywio economaidd a chymunedol lleol, rhaglenni rhanbarthol a rhyngranbarthol ac ymgysylltu ynghylch agendâu o arwyddocâd cenedlaethol megis agendâu polisi Ffermydd Gwynt Arnofiol ar y Môr a Phorthladdoedd Rhydd.

Gweithio mewn Partneriaeth

- Hyrwyddo rôl arweinyddiaeth gymunedol Aelodau Etholedig a'r cyngor, gan weithio gyda phartneriaid allanol i roi strategaethau ar waith a fydd yn gwella ansawdd bywyd cymunedau, dinasyddion a gwasanaethau.

- Cefnogi'r broses ddemocrataidd o wneud penderfyniadau ac annog pobl a chymunedau lleol i gymryd rhan yng ngwaith y cyngor i ddylunio a darparu gwasanaethau, gan gynnwys cyd-ddylunio a chydgynhyrchu lle bo hynny'n berthnasol.
- Sicrhau bod y cyngor yn ymgysylltu â'r gymuned leol ac yn gwrando ar ei safbwyntiau gyda'r nod o sicrhau llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein holl drigolion a busnesau.
- Parhau i ddatblygu effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gweithio rhanbarthol, er mwyn gwella ansawdd bywyd dinasyddion a chymunedau.
- Cynnal, drwy esiampl bersonol, yr ethos o weithio mewn partneriaeth sy'n nodweddiadol o gydberthnasau'r cyngor â rhanddeiliaid gan gynnwys busnesau, y sector gwirfoddol, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chyrff statudol, cyhoeddus a phreifat eraill.
- Hybu llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Castell-nedd Port Talbot drwy weithio'n effeithiol gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol, yr heddlu a'r gwasanaeth tân, y sector gwirfoddol a phartneriaid eraill.
- Cynnal partneriaeth gymdeithasol effeithiol ag undebau llafur lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cydnabyddedig.

Cyfathrebu

- Cyfleu gweledigaeth a gwerthoedd y cyngor yn effeithiol ar bob lefel o fewn y cyngor a'r tu allan iddo.
- Annog ymgynghori, cyfranogi ac ymgysylltu effeithiol â chymunedau, rhanddeiliaid lleol a phartneriaid ynglŷn â materion yn ymwneud â chynllunio a darparu gwasanaethau.
- Mynd ati i hyrwyddo a diogelu enw da'r cyngor a chydnabod a dathlu ei lwyddiannau.
- Datblygu, arwain a chynnal cydberthnasau gwaith cadarn a chynhyrchiol â rhanddeiliaid allanol allweddol, gan gynnwys trigolion, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, cynghorau eraill, cyrff cyhoeddus, rheoleiddwyr a'r sector preifat.

Cyfrifoldebau Democrataidd

- Rheoli'r rhyngweithio rhwng Aelodau Etholedig a swyddogion a chefnogi'r broses ddemocrataidd.
- Sicrhau bod trefniadau craffu effeithiol ar waith yn unol â gofynion statudol.
- Gweithredu fel Swyddog Cofrestru, gyda chyfrifoldeb am gofrestru etholiadol a chynnal etholiadau yn briodol.
- Gweithredu fel y Swyddog Canlyniadau ym mhob etholiad ac annog trigolion i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.
- Modelu arferion llywodraethu eithriadol, gan sicrhau y caiff y safonau uchaf o ran llywodraethu a moeseg eu cynnal ym mhob rhan o'r cyngor.

Llywodraethu a Rheoli Risg

- Sicrhau y caiff y cyngor ei lywodraethu'n effeithiol, a sicrhau cyfreithlondeb, uniondeb a hygrededd ei brosesau gwneud penderfyniadau a bod y prosesau hynny'n atebol i'r cyhoedd ac yn destun gwaith craffu priodol.
- Cyfrannu at y gwaith cyffredinol o reoli risg o fewn y cyngor, gan sicrhau bod llinellau atebolrwydd yn glir ac yn cael eu deall yn dda a bod systemau ar waith ar gyfer monitro, gwerthuso a rheoli risg er mwyn sicrhau enw da ac adnoddau ffisegol, rhithwir a deallusol y cyngor.
- Sicrhau bod gan holl wasanaethau'r cyngor gynlluniau parhad busnes cadarn ac y caiff rhwymedigaethau'r cyngor eu bodloni o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl.
- Cefnogi ymateb y cyngor i ddigwyddiad mawr, gan weithredu fel Comander Aur o fewn y cyngor ac mewn lleoliadau amlasiantaethol.
- Cydweithio â swyddogion statudol y cyngor, gan gynnwys y Swyddog A151 a'r Swyddog Monitro, er mwyn sicrhau y caiff y cyngor ei lywodraethu'n effeithiol.

Prif Weithredwr – Manyleb y Person

Cymwysterau

- Addysg ar lefel gradd neu ar lefel gyfatebol. (H)
- Cymhwyster proffesiynol priodol. (e.e. MBA) (H)
- Tystiolaeth o ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus. (H)

Profiad

- Cefndir llwyddiannus o gyflawniadau a phrofiad helaeth ar lefel prif swyddog / uwch-reolwr o fewn awdurdod lleol neu sefydliad cymhleth a gwleidyddol sensitif tebyg. (H)
- Tystiolaeth o gyflawniad arwyddocaol wrth arwain a rheoli newid sefydliadol a diwylliannol llwyddiannus. (H)
- Arweinyddiaeth amlwg sy'n ysbrydoli ac yn cymell pobl yn y sefydliad a'r tu allan iddo. (H)
- Hanes o lwyddo i reoli blaenoriaethau corfforaethol a blaenoriaethau gwasanaeth sy'n groes i'w gilydd, a datblygu consensws yn effeithiol. (H)
- Profiad o ddatblygu a galluogi partneriaethau a chydberthnasau allanol effeithiol, ar gyfer datblygu strategol a darparu gwasanaethau. (H)
- Profiad o ddatblygu a chynnal prosiectau adfywio llwyddiannus er mwyn gwella effeithiau cymdeithasol ac economaidd. (H)

Gwybodaeth, Sgiliau a Galluoedd

- Y gallu i weithredu'n effeithiol ac yn agored mewn amgylchedd democrataidd, gan greu cysylltiadau effeithiol a galluogi pobl i weithio'n briodol ar draws y ffin rhwng gwleidyddiaeth a rheoli. (H)
- Y craffter gwleidyddol, y deallusrwydd emosiynol a'r sgiliau i ddatblygu strategaeth a chydberthnasau gwaith cynhyrchiol ac effeithiol ag Aelodau Etholedig a'r Llywodraeth. (H)
- Y gallu i gynnal cysondeb â gwerthoedd sylfaenol y cyngor gan weithio yng nghyd-destun ansicrwydd, amwysedd a natur anochel newid (H).
- Y gallu i sefydlu diwylliant cadarn o berfformiad, arloesedd a gwasanaeth cwsmeriaid gan gynnwys perfformiad unigol a chorfforaethol effeithiol a'r gallu i werthuso ansawdd unigolion a gwasanaethau, er mwyn gallu

sicrhau'r gwerth gorau a gwelliannau i wasanaethau sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r cyngor. (H)

- Sensitifrwydd i anghenion y cyfryngau a chynnal enw da'r cyngor. (H)
- Sgiliau gwrando, cyfathrebu a chyd-drafod eithriadol, gan gynnwys y gallu i uniaethu â phobl mewn modd agored a pherswadiol o fewn y cyngor a'r tu allan iddo, a meithrin cydberthnasau sy'n llawn ymddiriedaeth. (H)
- Y gallu i gyfleu ymdeimlad o flaenoriaeth a phwrpas cyfunol. (H)
- Y gallu i gydweithio a helpu eraill i lwyddo. (H)
- Y gallu i weithio'n gorfforaethol mewn amgylchedd cymhleth a newidiol a blaenoriaethu a rheoli adnoddau'r presennol a'r dyfodol yn effeithiol, yn unol â blaenoriaethau Aelodau Etholedig ac yng nghyd-destun blaengynllun ariannol y cyngor. (H)
- Y gallu i feddwl yn strategol ac yn greadigol er mwyn datblygu ac argymell mentrau a pholisïau strategol a fydd o fudd i wasanaethau, pobl a chymunedau mewn ffordd ymarferol. (H)
- Y gallu i ffurfio a chynnal rhwydwaith cymhleth ac effeithiol o gydberthnasau yn fewnol ac yn allanol. (H)
- Y gallu i gynnal ffocws ar faterion strategol a hirdymor, gan sganio'r gorwel i feithrin ymwybyddiaeth o senarios posibl, gan ddatblygu, arddel a hyrwyddo golwg strategol ar gyfer y cyngor a'r Fwrdeistref Sirol. (H)
- Y gallu i gyflawni rôl bersonol wrth arwain a chynnal partneriaethau effeithiol, gan weithio gydag amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau. (H)
- Y gallu i fod yn eiriolwr dros yr awdurdod lleol, llywodraeth leol a democratiaeth. (H)
- Y gallu i siarad Cymraeg. (D)

Nodweddion ac Ymddygiadau Personol

- Ymrwymiad i ddemocratiaeth leol a llywodraethu da. (H)
- Lefel uchel o ymwybyddiaeth a sensitifrwydd gwleidyddol. (H)
- Y gallu i ennyn parch, ymddiriedaeth a hyder ymhlith Aelodau Etholedig, cyflogeion, sefydliadau partner, cyrff eraill a chymunedau. (H)
- Ymrwymiad i gyfle cyfartal i ddinasyddion a chyflogeion, gan eirioli dros amrywiaeth a chreu diwylliant o gynwysoldeb. (H)
- Gwytnwch a dyfeisgarwch ynghyd â'r gallu i ymdopi ag anawsterau a pharhau i gyflawni blaenoriaethau dan amgylchiadau heriol. (H)

- Lefel uchel o uniondeb, gonestrwydd a hygrededd personol, ac ymrwymiad i werthoedd gwasanaethau cyhoeddus. (H)